

# Disodli'r tiwb tenau – Ambio




Dadsgriwiwch y plygiad (y darn o blastig sy'n cysylltu'r tiwb a'r cymorth clyw) yn wrthglocwedd er mwyn tynnu'r tiwb allan o'r cymorth clyw. Sgriwiwch y plygiad newydd i mewn i'r cymorth clyw yn glocwedd, nes na allwch chi droi'r plygiad ddim mwy. Sicrhewch fod y tiwb ddim yn troi pan fyddwch chi'n ei ddisodli.

## Sut mae gwybod pa un yw'r chwith a'r dde




Mae eich cymhorthion clyw yn cael eu rhaglenni i gyfateb i'ch clyw ym mhob clust, felly mae'n bwysig gwisgo'r cymorth clyw cywir ar yr ochr gywir. Ar waelod y cymorth clyw, dylech chi allu gweld smotyn coch neu las (sef y marciwr ar y cymorth clyw). Mae'r marciwr coch yn dynodi'r cymorth clyw ar gyfer yr ochr dde ac mae'r marciwr glas yn dynodi'r cymorth clyw ar gyfer yr ochr chwith. Felly, ar waelod eich tiwb, dylech chi allu gweld rhif a llythyren mewn coch neu las. Sicrhewch fod y tiwb cywir yn cyfateb i'r cymorth clust cywir.

Crëwyd y delweddau gan GN Hearing ac fe'u golygwyd gan BIP Cwm Taf Morgannwg